**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Deisebau

# Achub y Vulcan: Gwarchod adeiladau hanesyddol

Chwefror 2010

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

I gael rhagor o gopïau caled o'r ddogfen hon cysylltwch â:
Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8393
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Petition@wales.gsi.gov.uk

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Deisebau

# Achub y Vulcan: Gwarchod adeiladau hanesyddol

Chwefror 2010

## Y Pwyllgor Deisebau

Gwaith y Pwyllgor Deisebau yw ystyried deisebau a gyflwynir gan y cyhoedd, a bwrw ymlaen â'r mater dan sylw ar ran y deisebwyr.

## Ei bwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mehefin 2007 gan y Cynulliad i ystyried deisebau a gyfeirir ato gan y Llywydd. Mae gan y Pwyllgor bŵer i gymryd unrhyw gamau sy'n briodol ym marn yr Aelodau mewn perthynas â'r ddeiseb dan sylw.

**Aelodau'r Pwyllgor**

| *Aelod Pwyllgor* | *Plaid* | *Etholaeth neu Ranbarth* |
|---|---|---|
| Christine Chapman | Llafur | Cwm Cynon |
| Andrew RT Davies | Y Ceidwadwyr Cymreig | Canol De Cymru |
| Michael German | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Dwyrain De Cymru |
| Bethan Jenkins | Plaid Cymru | Gorllewin De Cymru |

# Cynnwys


**Argymhellion y Pwyllgor** ..... **6**

**1. Cefndir y ddeiseb** ..... **7**

**2. Statws adeilad rhestredig** ..... **9**

Dadl y deisebwyr dros restru'r adeilad ..... 9

Casgliadau ..... 11

**3. Gwarchod yn lleol** ..... **12**

Y Mesur Seneddol drafft ynghylch gwarchod treftadaeth ..... 13

**4. Materion eraill** ..... **13**

Gorchymyn Prynu Gorfodol ..... 14

Ail-leoli'r Vulcan ..... 14

Cynnwys y Vulcan yng nghynlluniau'r dyfodol ..... 14

**5. Casgliadau** ..... **15**

**Tystion** ..... **16**

**Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig** ..... **17**

## Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru i'w gweld isod. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau sy'n cyd-fynd â'r argymhellion:

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cyflwyno canllawiau, neu ddeddfwriaeth os yw hynny'n angenrheidiol, er mwyn gwarchod adeiladau sy'n bwysig am resymau cymdeithasol a diwylliannol. **(Tudalen 11)**

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ag awdurdodau lleol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gyda'r nod o gryfhau'r pwerau sydd gan awdurdodau lleol i warchod adeiladau sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer rhestru'n lleol rhag cael eu dymchwel. **(Tudalen 15)**

# 1. Cefndir y ddeiseb

1. Ar Adam Street yng nghanol Caerdydd y saif y Vulcan Hotel (‘y Vulcan’). Fe’i codwyd ym 1853, a hwn yw’r unig adeilad i oroesi’r ailddatblygu parhaol a fu ar ganol y ddinas yn yr ardal a adwaenid cynt fel Newtown. Y cwmni Marcol Asset Management Ltd sy’n berchen ar y Vulcan ar hyn o bryd, ac mae’n ei osod i SA Brain & Co.

2. Daeth bygythiad i ddyfodol y Vulcan yn sgil y datblygiad diweddaraf yng nghanol dinas Caerdydd – datblygiad canolfan Dewi Sant 2. Mae’r Vulcan yn sefyll ar safle yn Adam Street oddi mewn i’r ardal a oedd i’w datblygu.

3. Yn 2005, dechreuodd Awdurdod Datblygu Cymru gynt bwyso am orchymyn prynu gorfodol drafft (‘y Gorchymyn’) ar gyfer y tir y byddai ei angen ar ddatblygiad Dewi Sant 2. Ar yr un pryd, cynhaliodd yr Awdurdod drafodaethau er mwyn ceisio sicrhau y byddai’r datblygiad yn mynd yn ei flaen drwy ddod i gytundeb, yn hytrach na thrwy’r gorchymyn[1]. Gwnaed hyn yn unol â’r canllawiau a oedd mewn bod ar y pryd[2], a’r rheini’n argymell y dylid hyrwyddo gorchmynion prynu gorfodol law yn llaw â phroses o gyd-drafod.

4. Nid caffael y safle ynddo’i hun oedd y nod wrth wneud y gorchymyn[3], ond sicrhau bod y cynllun datblygu yn llwyddo. Yn 2006, daeth Awdurdod Datblygu Cymru yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru (‘Llywodraeth Cymru’). Penderfynodd Llywodraeth Cymru fwrw ymlaen â’r dull yr oedd yr Awdurdod wedi’i ddechrau, ac arweiniodd hynny at wneud y Gorchymyn ym mis Tachwedd 2006. Fodd bynnag, nid yw’r Gorchymyn wedi’i ddefnyddio hyd yma.

5. Ar yr adeg hon, roedd Marcol Asset Management Ltd (Marcol) yn rheoli rhan sylweddol o’r safle yn Adam Street. Dim ond dau eiddo a oedd ar ôl heb eu caffael. Un o’r rhain oedd y Vulcan, a oedd yn berchen i SA Brain & Co Ltd (SA Brain).

6. Ers hynny, daeth Marcol yn rhydd-ddeiliad ar y Vulcan, drwy gytundeb preifat ag SA Brain, er bod y cwmni’n gwybod yn barod bod y gorchymyn prynu gorfodol yn bodoli. Golygai hynny mai cwmni datblygu preifat oedd unig berchennog safle Adam Street, a’r cwmni hwnnw’n gallu cyflawni’r nod o fwrw ymlaen â gwaith ailddatblygu mawr[4]. Roedd gan Awdurdod Datblygu Cymru gytundeb gyda Marcol i beidio â chaffael y tir pe bai Marcol yn dod yn berchen ar yr holl safle[5]. Etifeddodd Llywodraeth Cymru y cytundeb hwn pan ddaeth yr Awdurdod yn rhan

[1] E-bost gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ‘Cais Rhyddid Gwybodaeth 3034’, 23 Ionawr 2009
[2] Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 14/04 ‘Gorchmynion Prynu Gorfodol’
[3] E-bost gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ‘Cais Rhyddid Gwybodaeth 3034’, 23 Ionawr 2009
[4] Ibid
[5] Ibid

o'r Llywodraeth yn 2006. O ganlyniad, ni fu'n rhaid i Lywodraeth Cymru gaffael y tir drwy'r Gorchymyn.

7. Ers dod yn berchen ar y Vulcan, mae Marcol wedi'i osod yn ôl i SA Brain o dan gytundeb dros dro, wrth aros i'r gwaith ailddatblygu ddechrau. Pan ddaeth y ddeiseb hon i law, roedd y brydles i ddod i ben ym mis Mehefin 2009.

8. Ar ddechrau 2008, sefydlodd Rachel Thomas a Graham Craig, y prif ddeisebwyr, ymgyrch 'Achub y Vulcan'[6]. Elfen ganolog o'r ymgyrch hon oedd cychwyn deiseb i'w hanfon at Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Casglwyd 5,000 o lofnodion ar y ddeiseb hon ac fe'i cyflwynwyd i'r Cynulliad ar 12 Chwefror 2009. Bryd hynny, roedd disgwyl i'r Vulcan gau a chael ei ddymchwel ym mis Mehefin 2009.

9. Yn wreiddiol, roedd ymchwiliad y Pwyllgor Deisebau i'r ddeiseb hon yn canolbwyntio ar y posibilrwydd y gallai Llywodraeth Cymru restru'r Vulcan fel adeilad o bwysigrwydd cenedlaethol.

10. Wrth ymchwilio i'r uchod, fe'n harweiniwyd hefyd i edrych ar y pwerau sydd gan awdurdodau lleol i warchod adeiladau sy'n bwysig ar lefel leol.

11. Ym mis Mehefin 2009, cynigiodd y datblygwr ymestyn prydles y Vulcan am dair blynedd, gan leihau'r bygythiad y byddai'r adeilad yn cael ei ddymchwel yn y dyfodol agos, ond heb sicrhau dyfodol y Vulcan yn y tymor hir.

[6] Mae blog ymgyrch 'Achub y Vulcan' i'w weld yn http://save-the-vulcan.blogspot.com

## 2. Statws adeilad rhestredig

12. Ar ddechrau'r ymgyrch, asesodd y deisebwyr yr opsiynau a oedd ar gael i warchod y Vulcan rhag cael ei ddymchwel. Dywedodd Mr Graham Craig, un o drefnwyr ymgyrch 'Achub y  Vulcan', mai rhestru'r adeilad oedd y ffordd orau, mae'n debyg, a'r unig ffordd y gallent feddwl amdani, o warchod yr adeilad[7]. Felly, roedd rhan gyntaf ein hymchwiliad i'r ddeiseb hon yn canolbwyntio ar ymdrechion y deisebwyr i sicrhau bod y Vulcan yn cael ei restru, ac ymateb Llywodraeth Cymru i hynny.

### *Dadl y deisebwyr dros restru'r adeilad*

13. Dywedodd y deisebwyr wrthym fod cais blaenorol wedi'i gyflwyno i Cadw i sicrhau bod y Vulcan yn cael ei restru[8] a bod y ceisiadau hyn wedi bod yn aflwyddiannus. Dywedodd Cadw y byddai'n fodlon ystyried cais newydd i restru'r adeilad, ar yr amod bod y cais hwnnw'n cynnwys gwybodaeth newydd.

14. Bu Mr Craig yn ymchwilio i hanes y Vulcan a lluniodd gais newydd i'w gyflwyno i Cadw. Yn sgil ei ymchwil, daethpwyd o hyd i'r wybodaeth newydd hon:

- Pared a oedd wedi'i guddio
- Y gwaith ailwampio a wnaed o dan oruchwyliaeth Fred Veall, y pensaer o Gaerdydd
- Pwysigrwydd cymdeithasol a diwylliannol mwy diweddar y tŷ tafarn hwn

15. Pan ddaeth y cais newydd i law, ailasesodd Cadw y Vulcan yn erbyn y meini prawf ar gyfer rhestru adeiladau. Rhoddodd Cadw grynodeb i ni o'r prif feini prawf a ddefnyddir gan Weinidogion Cymru wrth benderfynu pa adeiladau i'w cynnwys mewn rhestrau statudol, ac mae'r rheini fel a ganlyn[9]:

- Diddordeb pensaernïol
- Diddordeb hanesyddol
- Cysylltiadau hanesyddol agos gyda phobl neu ddigwyddiadau sy'n bwysig i Gymru
- Gwerth grŵp

[7] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Deisebau, 17 Mawrth 2009 p.5
[8] Cadw yw is-adran amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru
[9] Cadw, *Paper to the Petitions Committee: Petition P-03-197 Save the Vulcan*, 17 Mawrth 2009

16. Mae'r meini prawf hyn i'w gweld yng nghylchlythyron 61/96 a 1/98. Gyda phryder, sylwasom fod y cylchlythyron hyn yn bodoli ers cyn sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac nad ydynt wedi'u diwygio i ddwyn i gyfrif flaenoriaethau newydd a all fod gennym yn sgil datganoli. Dywedodd Cadw wrth ymateb i'n cwestiynau:

> 'There is a plan for some heritage protection legislation that would cover England and Wales. That legislation is very much intended to tighten up and to bring together the fairly disparate collection of legislation that currently prevails in England and Wales, and also to provide greater clarity and accountability on the heritage protection process. That legislation currently does not have a slot in the UK Parliament, but as part of the underpinning process of that legislation finding its way through the UK Parliament, I think that it is extremely likely that issues such as the criteria will be revisited.'[10]

17. Ni wnaeth Llywodraeth y DU gynnwys Mesur Seneddol ynghylch gwarchod treftadaeth yn ei rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer 2009/10[11], ac rydym yn pryderu braidd y gall hyn achosi oedi wrth ddatblygu trefniadau yng Nghymru ar gyfer gwarchod ein treftadaeth adeiledig.

18. Yn ystod ein hymchwiliadau, cyfeiriodd y deisebwyr yn gyson at bwysigrwydd cymdeithasol a diwylliannol y Vulcan. Dywedwyd bod iddo arwyddocâd cymdeithasol pwysig[12] a goblygiadau cymdeithasol cryf[13] yn sgil y cysylltiadau â Newtown ac adeiladu dociau Caerdydd. Dywedodd Jenny Randerson AC mai yno y byddai'r gweithwyr o Iwerddon a adeiladodd y dociau yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn yfed[14] a disgrifiwyd y Vulcan gan y deisebwyr fel yr unig gysylltiad gweledol sydd ar ôl â hen ardal Newtown[15].

19. Holwyd Cadw ynghylch yr arwyddocâd cymdeithasol, a'r ymateb oedd:

> 'The current criteria do not permit an assessment of a building's social interest where special architectural or historic interest is absent'[16].

20. Cwblhaodd Cadw ei asesiad o'r Vulcan ym mis Mawrth 2009, gan ddod i'r casgliad a ganlyn:

---

[10] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Deisebau, 17 Mawrth 2009 p.16
[11] http://www.commonsleader.gov.uk/files/pdf/803%20Cm%207739.pdf
[12] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Deisebau 17 Mawrth 2009 p.9
[13] Ibid p.7
[14] Ibid p.7
[15] Ibid p.9
[16] Cadw, *Supplementary paper - the Social and Cultural Significance of Buildings*, Ebrill 2009

> 'although there is clearly a strong case to be made for the local significance of the Vulcan, and for its contemporary social and cultural value, there are insufficient grounds to support a recommendation for listing.'[17]

21. Ysgrifennodd y Gweinidog dros Dreftadaeth atom ar 22 Mehefin 2009 yn cadarnhau ei fod wedi penderfynu peidio â rhestru'r Vulcan gan nad oedd y meini prawf ar gyfer rhestru wedi'u bodloni.

### *Casgliadau*

22. Rydym yn ddiolchgar i Cadw am ailasesu'r posibilrwydd o restru'r Vulcan, yn sgil tystiolaeth ychwanegol a ddaeth i law yn dilyn gwaith ymchwil gan y deisebwyr. Ar ôl trafod argymhelliad Cadw na ddylid ychwanegu'r Vulcan at y rhestr statudol, derbyniwn fod yn rhaid i Cadw asesu pob adeilad yn unol â'r meini prawf a bennwyd. Yn sgil hyn, deallwn nad yw'r Vulcan yn bodloni'r meini prawf hynny, a phe byddent yn argymell rhestru'r Vulcan, mae'n bosibl y byddai Cadw a Gweinidogion Cymru yn agored i'r risg o her gyfreithiol. Oherwydd hynny, rydyn yn derbyn y penderfyniad a wnaeth y Gweinidog dros Dreftadaeth.

23. Credwn fod y 5,000 o lofnodion a gasglwyd mewn cefnogaeth i'r ddeiseb hon yn dyst i'r ffaith bod y Vulcan yn adeilad pwysig i bobl Caerdydd. Mae'n bwysig yn bennaf am resymau cymdeithasol a diwylliannol, a hwn yw'r cysylltiad gweledol olaf gyda hen ardal Newtown yng Nghaerdydd. Gan fod y trefniadau presennol ar gyfer gwarchod adeiladau'n statudol yn canolbwyntio'n llwyr ar asesu'r diddordeb pensaernïol a hanesyddol, a hynny ar lefelau cenedlaethol a lleol ill dau, nid oes unrhyw fodd o warchod adeiladau sy'n bwysig i gymunedau am resymau eraill.

24. Mae'r meini prawf a ddefnyddir i benderfynu a ddylid rhestru adeiladau yn bodoli ers y cyfnod cyn sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Credwn y dylid diwygio'r canllawiau hyn. Nodwn nad yw Llywodraeth y DU wedi cyflwyno'r ddeddfwriaeth y cyfeiriodd Cadw ati wrth roi tystiolaeth i ni, ac rydym yn pryderu y gall hyn gael effaith negyddol ar ddatblygu trefniadau yng Nghymru ar gyfer gwarchod ein treftadaeth adeiledig.

25. Croesawn y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgynghori ar y canllawiau ac yn bwriadu eu diwygio maes o law[18].

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cyflwyno canllawiau, neu ddeddfwriaeth os yw hynny'n angenrheidiol, er mwyn gwarchod adeiladau sy'n bwysig am resymau cymdeithasol a diwylliannol.**

---

[17] Llythyr gan y Gweinidog dros Dreftadaeth at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau, *Vulcan Public House, Adamsdown*, *Cardiff*, 27 Ebrill 2009

[18] Llythyr gan y Gweinidog dros Dreftadaeth at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau, 22 Mehefin 2009

## 3. Gwarchod yn lleol

26. Wrth ystyried a oedd y Vulcan yn bodloni'r meini prawf ar gyfer rhestru adeiladau'n statudol, pwysleisiodd Cadw fod llywodraeth leol hefyd yn ymwneud â gwarchod adeiladau. Nododd fod y prif gyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau am arwyddocâd a gwarchod adeiladau hanesyddol yng Nghymru yn gyfrifoldeb lleol, ac mai'r awdurdod lleol sy'n rhoi caniatâd i restru adeiladau[19].

27. Tra nad yw'n cylch gwaith yn ein galluogi i drafod penderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol unigol, penderfynwyd ceisio canfod a oes gan awdurdodau lleol ddigon o bwerau i warchod adeilad sydd o bwysigrwydd lleol pe na bai Cadw yn ychwanegu'r adeilad hwnnw at y rhestr genedlaethol. O'r dystiolaeth a ddaeth i law gan Gyngor Caerdydd, mae'n ymddangos bod awdurdodau lleol yn defnyddio'r un meini prawf ar gyfer rhestru â Cadw, ond heb fod gofyniad i'r adeilad fod o bwysigrwydd cenedlaethol.

28. Gall awdurdodau lleol ychwanegu adeiladau o bwysigrwydd lleol at restr gan ddefnyddio'r un meini prawf â'r rheini a ddefnyddir gan Cadw ar gyfer y rhestr genedlaethol, ond heb fod gofyniad i'r adeilad fod ag arwyddocâd cenedlaethol. Pennir y meini prawf hyn mewn cylchlythyr sydd, unwaith eto, yn perthyn i'r cyfnod cyn sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac nid oes unrhyw gyfarwyddiadau pellach wedi'u rhoi i awdurdodau lleol ers cyhoeddi'r cylchlythyr hwn dair mlynedd ar ddeg yn ôl. Mae'r dystiolaeth a ddaeth i law yn awgrymu nad yw'r rhestr leol hon yn gwneud nemor ddim i warchod adeiladau rhag cael eu dymchwel. Mewn gwirionedd, dywedodd swyddogion o Gyngor Caerdydd nad yw rhestru adeiladau'n lleol yn eu gwarchod mewn unrhyw ffordd rhag cael eu dymchwel[20]. At hynny, dywedodd swyddog na allai feddwl am unrhyw enghraifft lle'r oedd defnyddio'r rhestr honno wedi arwain at beidio â dymchwelo adeilad[21].

29. Rhoddwyd gwybod i ni hefyd fod Cyngor Caerdydd wedi ceisio cefnogaeth Swyddfa Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn ehangu'r pwerau sydd ganddo er mwyn gwarchod adeiladau sydd ar y rhestr leol, ond ofer fu'r ymdrechion hynny[22].

[19] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Deisebau, 17 Mawrth 2009 p.15
[20] Ibid p.5
[21] Ibid p.9
[22] Ibid

30. Mae'r meini prawf ar lefel leol yn gyfyngedig yn yr un ffordd â'r meini prawf cenedlaethol – hynny yw, ni allant ystyried adeiladau sy'n bwysig am resymau ac eithrio arwyddocâd hanesyddol neu bensaernïol. At hynny, roeddem yn pryderu'n arw am y diffyg pwerau sydd gan awdurdodau lleol i warchod adeiladau sy'n bodloni'r meini prawf ac wedi'u cynnwys ar restr leol.

31. Ar ôl clywed tystiolaeth gan Gyngor Caerdydd, holwyd barn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, er mwyn gweld a oedd awdurdodau lleol eraill yng Nghymru yn rhannu safbwynt Cyngor Caerdydd. Cadarnhaodd y Gymdeithas fod pwysigrwydd lleol adeiladau yn peri pryder i awdurdodau cynllunio lleol ledled Cymru[23].

32. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

> 'The public clearly think it is somewhat strange that as planners Local Authorities can involve ourselves in porches and alterations to houses in the street, but we cannot prevent gaps appearing in those streets through demolition and clearance - which often have a far more detrimental impact'[24]

***Y Mesur Seneddol drafft ynghylch gwarchod treftadaeth***

33. Cyfeiriodd Cyngor Caerdydd a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ill dau at absenoldeb Mesur Seneddol ynghylch treftadaeth[25]. Dywedodd Cyngor Caerdydd:

> 'There was a suggestion that the buildings on the local list might benefit from some statutory protection from demolition [...]'.

## 4. Materion eraill

34. Ceisio gwarchod y Vulcan drwy'r broses restru genedlaethol neu leol oedd y prif nod wrth i ni ystyried y ddeiseb hon. Fodd bynnag, bu i ni drafod nifer o faterion eraill hefyd, gan gynnwys:

- Pwerau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phrynu gorfodol

[23] Llythyr gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru at y Pwyllgor Deisebau, *Petition - Save the Vulcan,* 27 Gorffennaf 2009
[24] Ibid
[25] Ibid

- Ail-leoli'r Vulcan
- Ymgorffori'r Vulcan yng nghynlluniau'r dyfodol

### *Gorchymyn Prynu Gorfodol*

35. Awgrymodd y deisebwyr y gallai Gweinidogion Cymru fod mewn sefyllfa i ddefnyddio'r Gorchymyn Prynu Gorfodol sydd ganddynt i sicrhau nad yw'r Vulcan yn cael ei ddymchwel. Mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi cadarnhau na fyddai hyn yn bosibl heb i Weinidogion Cymru fod yn agored i her gyfreithiol, gan y byddai hynny'n mynd yn groes i'r rheswm gwreiddiol dros wneud y Gorchymyn.

### *Ail-leoli'r Vulcan*

36. Crybwyllwyd y syniad o symud y Vulcan, fric wrth fric, i Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan. Gwrthwynebai'r deisebwyr hyn yn gryf, gan ddatgan bod mwy o werth i'r Vulcan yn ei safle presennol nag mewn amgueddfa[26] a'i fod yn perthyn i'r man lle safodd ers 155 o flynyddoedd – yng nghanol Caerdydd[27].

37. Awgrymwyd i'r deisebwyr y gellid ystyried y posibilrwydd o ail-leoli'r Vulcan yn yr ardal gyfagos. Mae hyn wedi digwydd o leiaf ddwywaith wrth ailddatblygu Bae Caerdydd, pan symudwyd yr Eglwys Norwyaidd a'r 'D-shed'. Nid oedd y deisebwyr yn credu y byddai hyn yn ddichonadwy ar sail y gost a'r prinder tir yn yr ardal.

### *Cynnwys y Vulcan yng nghynlluniau'r dyfodol*

38. Nid yw'r datblygwr wedi gwneud sylwadau am ddyfodol y Vulcan a safle Adam Street yn y tymor hir. Mae ceisiadau cynllunio sydd wedi'u cyflwyno i Gyngor Caerdydd yn ddiweddar wedi cynnwys y Vulcan ochr yn ochr â datblygiadau eraill[28].

39. Yn ôl Jonathan Adams, y pensaer lleol nodedig sy'n cefnogi'r ddeiseb i achub y Vulcan, nid oes unrhyw reswm pam na ellid ymgorffori'r Vulcan wrth ailddatblygu'r safle yn y dyfodol, a byddai'n gyfle cyffrous o safbwynt pensaernïol[29].

---

[26] Geiriad y ddeiseb www.cynulliadcymru.org
[27] Ibid
[28] Cyngor Sir Caerdydd, ceisiadau cynllunio 09/01308C a 09/01309C
[29] Tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Deisebau yn y cyfarfod â Mr Adams ar 18 Mai 2009.

## 5. Casgliadau

40. Ar sail y dystiolaeth a ddaeth i law, rydym yn pryderu nad oes gan awdurdodau lleol yng Nghymru ddigon o bwerau i warchod adeiladau sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer rhestru'n lleol. Nid yw Llywodraeth y DU wedi cynnwys Mesur Seneddol ynghylch gwarchod treftadaeth yn ei rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer 2009/10, a gallai hwnnw fod wedi bod yn gyfle i roi sylw i rai o'r pryderon hyn.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ag awdurdodau lleol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gyda'r nod o gryfhau'r pwerau sydd gan awdurdodau lleol i warchod adeiladau sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer rhestru'n lleol rhag cael eu dymchwel.**

41. Rydym yn cydnabod bod dyfodol y Vulcan yn nwylo'r datblygwr. Rydym yn cydnabod bod y brydles wedi'i hymestyn ac yn gobeithio bod hyn yn arwydd bod y datblygwr yn cydnabod bod y Vulcan yn ased a fydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygiad Caerdydd yn y dyfodol. Gobeithiwn y bydd y datblygwr yn parhau i weithio gyda phob parti er mwyn sicrhau parhad i'r Vulcan yn y dyfodol.

## Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r sesiynau tystiolaeth lafar yn Achub y Vulcan trawsgrifiadau

*17 Mawrth 2009*

| | |
|---|---|
| Rachel Thomas | Prif ddeisebydd, Grŵp Achub y Vulcan |
| Graham Craig | Grŵp Achub y Vulcan |
| Jenny Randerson | Aelod Cynulliad, Canol Caerdydd |
| Marilyn Lewis | Cyfarwyddwr, Cadw |
| Judith Alfrey | Cadw |
| Laurence Burr | Cadw |

*9 Mehefin 2009*

| | |
|---|---|
| Richard Cole | Uwch Swyddog Cynllunio, Cyngor Sir Caerdydd |
| Steven Phillips | Cyfarwyddwr Corfforaethol, yr Amgylchedd, Cyngor Sir Caerdydd |

## Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Cafodd y Pwyllgor y deunydd a ganlyn yn dystiolaeth ysgrifenedig. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn Cynulliad Cenedlaethol Cymru | Y Pwyllgor Deisebau

| *Enw / Sefydliad* | *Dogfen* | *Cyfeirnod* |
|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | E-bost 'Cais am Ryddid Gwybodaeth 3034', 23 Ionawr 2009 | P-03-197-1 |
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | Cylchlythyr 14/04 'Gorchmynion Prynu Gorfodol' | P-03-197-2 |
| Cadw | Papur i'r Pwyllgor Deisebau: P-03-197 Save the Vulcan, 17 Mawrth 2009 | P-03-197-3 |
| Cadw | Papur atodol – the Social and Cultural Significance of Buildings, Ebrill 2009 | P-03-197-4 |
| Swyddfa Arweinydd Tŷ'r Cyffredin | The Draft Legislative Programme 2009/10 – Governments Response and Summary of Consultation | P-03-197-5 |
| Y Gweinidog dros Dreftadaeth, Llywodraeth Cymru | Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau, 27 Ebrill 2009 | P-03-197-6 |
| Y Gweinidog dros Dreftadaeth, Llywodraeth Cymru | Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau, 22 Mehefin 2009 | P-03-197-7 |
| Steve Thomas, Prif Weithredwr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau, Petition – Save the Vulcan, 27 Gorffennaf 2009 | P-03-197-8 |